OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 2938

## Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) (Diwygio) 2002

**Diwygio'r Rheoliadau**

**5.** Yn Rhan I o Atodlen 3—

(a) ym mharagraff 1(1)(b) yn lle'r geiriau o "ym mharagraffau 2 i 9" i "Gyngor Addysg Taleithiau Guernsey" rhowch "ym mharagraffau 2 i 11, ac os yw'n berson a grybwyllir ym mharagraff 7, 8, 10 neu 11 fod y datganiad a gyflwynwyd gan y corff argymell, Cyngor Addysg Taleithiau Guernsey neu'r awdurdod argymell";

(b) ym mharagraff 1(2) yn lle "9" rhowch "11";

(c) ym mharagraff 1(3) yn lle "7 neu 9" rhowch "7, 9, 10 neu 11" bob tro y maent yn digwydd;

(ch) ar ôl paragraff 9 mewnosodwch y paragraffau canlynol—

"**10.**—(1) Mae'r awdurdod argymell wedi cyflwyno argymhelliad i'r Cynulliad y dylid dyfarnu statws athro cymwysedig i berson a datganiad—

(a) ei fod ar ddyddiad yr argymhelliad yn cael ei gyflogi fel athro mewn ysgol annibynnol; a

(b) ei fod wedi'i asesu gan yr awdurdod argymell fel un sy'n bodloni'r safonau penodedig; ac

(c) (i) ei fod cyn 1 Ionawr 1974 wedi cael cymwysterau sy'n bodloni gofynion paragraffau 12, 13, 14, 15, 16, 17 neu 18 o Ran II o'r Atodlen hon, neu

(ii) ei fod cyn 1 Ionawr 1974 wedi cael gradd a roddwyd gan un o brifysgolion y Deyrnas Unedig neu gan y Cyngor Dyfarniadau Academaidd Cenedlaethol neu gan sefydliad estron, neu

(iii) ei fod cyn 1 Medi 1989 wedi cael gradd a roddwyd gan un o brifysgolion y Deyrnas Unedig neu gan y Cyngor Dyfarniadau Academaidd Cenedlaethol neu gan sefydliad estron mewn mathemateg, ffiseg, cemeg, bioleg, botaneg, söoleg, ffisioleg, biocemeg neu ddaeareg; ac

(ch) ei fod wedi'i gyflogi fel athro mewn ysgol annibynnol cyn 1 Medi 1989.

(2) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr "awdurdod argymell"—

(i) yn achos athro nad yw'n bennaeth nac yn benadur, yw pennaeth neu benadur yr ysgol annibynnol y mae wedi'i gyflogi i addysgu ynddi; a

(ii) yn achos pennaeth neu benadur, yw cadeirydd corff llywodraethu'r ysgol, neu os nad oes un, perchennog yr ysgol;

(b) mae i "sefydliad estron" yr un ystyr ag ym mharagraff 2(2)(b); ac

(c) mae i "safonau penodedig" yr un ystyr ag ym mharagraff 9(2)(b).

**11.**—(1) Mae'r awdurdod argymell wedi cyflwyno argymhelliad i'r Cynulliad y dylid dyfarnu statws athro cymwysedig i berson a datganiad—

(a) ei fod ar ddyddiad yr argymhelliad yn cael ei gyflogi—

(i) fel athro mewn sefydliad addysg bellach; neu

(ii) fel hyfforddwr mewn ysgol yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 2;

(b) ei fod wedi'i asesu gan yr awdurdod argymell fel un sy'n bodloni'r safonau penodedig;

(c) (i) ei fod cyn 1 Ionawr 1974 wedi cael cymwysterau sy'n bodloni gofynion paragraffau 12, 13, 14, 15, 16, 17 neu 18 o Ran II o'r Atodlen hon; neu

(ii) ei fod cyn 1 Ionawr 1974 wedi cael gradd a roddwyd gan un o brifysgolion y Deyrnas Unedig neu gan y Cyngor Dyfarniadau Academaidd Cenedlaethol neu gan sefydliad estron; neu

(iii) ei fod cyn 1 Medi 1989 wedi cael gradd a roddwyd gan un o brifysgolion y Deyrnas Unedig neu gan y Cyngor Dyfarniadau Academaidd Cenedlaethol neu gan sefydliad estron mewn mathemateg, ffiseg, cemeg, bioleg, botaneg, söoleg, ffisioleg, biocemeg neu ddaeareg;

(ch) ei fod wedi'i gyflogi fel athro mewn sefydliad addysg bellach cyn 1 Medi 1989;

(d) ei fod yn dal Tystysgrif mewn Addysg neu Dystysgrif Addysg i Raddedigion; ac

(dd) ym marn yr awdurdod argymell, ei fod yn meddu ar ddigon o brofiad addysgu i allu addysgu disgyblion o 14 oed i 19 oed.

(2) Yn y paragraff hwn—

(a) ystyr "awdurdod argymell"—

(i) yn achos athro nad yw'n bennaeth nac yn benadur, yw pennaeth neu benadur y sefydliad addysg bellach y mae'r person yn cael ei gyflogi i addysgu ynddo; a

(ii) yn achos pennaeth neu benadur, yw cadeirydd y corff llywodraethu;

(b) mae i "sefydliad estron" yr un ystyr ag ym mharagraff 2(2)(b); ac

(c) mae i "safonau penodedig" yr un ystyr ag ym mharagraff 9(2)(b).".